

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion cyfarfod fidio Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Lun,  
13 Gorffennaf 2020 .

## Minutes of the Finance Committee Video Meeting held, Monday, 13 July 2020.

### Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Hywel J Owen; Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones; David C Davies; Eddie Willcox;

Hefyd yn bresennol - David Roberts, Rheolwr y Cyngor. Ann Llwyd Williams , Cyiethydd

### 1 Croeso'r Cadeirydd - Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cyng. David C Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid am 8 o'r gloch yr hwyr. Diolchodd i'r aelodau oedd yn bresennol. Aeth yn syth at y rhaglen. Croesawyd Ann Llwyd Williams oeddyn cyfieuthu y drafodaeth dros y ffôn i'r Cyng. Eddie Willcox.

### 2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Bryn Williams

### 3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Cyng. David C Davies – eitem 7 - yn aelod o Bwyllgor Neuadd Y Groeslon – ddim yn fuddiant oedd yn rhagfarnu felly arhosodd yn y cyfarfod wrth drafod yr eitem.

Cyng. Alun Wyn Jones – eitem 7- yn aelod o Bwyllgor Neuadd Y Groeslon – ddim yn fuddiant oedd yn rhagfarnu felly arhosodd yn y cyfarfod wrth drafod yr eitem.

### 4 Sefyllfa Ariannol y Cyngor at 30 Mehefin 2020 – Gweler Adroddiad y Rheolwr / The Financial Position as at 30 June 2020. See Managers Report

Trafodwyd adroddiad y Rheolwr.

'Roedd y Rheolwr eisoes wedi anfon y wybodaeth ganlynol i'r aelodau -

- 1 Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 30 Mehefin 2020
- 2 Datganiadau Banc i 30 Mehefin 2020
- 3 Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2020
- 4 Crynodeb o'r Balansau i 30 Mehefin 2020
- 5 Cyllideb 2020-21 at 30 Mehefin 2020

## Balansau y Cyngor ar 30 Mehefin 2020 / Council Balances as at 30 June 2020

Sefyllfa Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2020 / Fund Balances as at 30 June 2020	Balansau Y Cyngor ar 31/3/2020 / Council Balances as at 31/3/2020	(Defnydd) neu Ychwanegiadau yn 2020-21 / (Application) o'r Additions in 2020/21	Balansau y Cyngor ar 30/6/2020 / Council Balances as at 30/6/2020
Arian Wrth Gefn - Contingency Fund (Policy)	£3,500.00	£1,500.00	<b>£5,000.00</b>
Cronfa Caeau Pel droed / Football Fields Renewal Fund	£2,000.00	£1,000.00	<b>£3,000.00</b>
Cronfa Caeau Pel droed Groeslon - Groeslon Football Field Fund	£0.00	£1,000.00	<b>£1,000.00</b>
Cronfa Lloches Bws Dinas Dinlle ' Dinas Dinlle Bus Shelter Fund	£0.00	£2,500.00	<b>£2,500.00</b>
Tanwariant 2019-20 - lleihau praesept 2020-21 / 2019-20 Underspend to reduce the precept	£2,000.00	(£2,000.00)	<b>0.00</b>
Gwefan Newydd / New Website	£2,185.00	(£2,185.00)	<b>0.00</b>
Tanwariant 2019-20 -heb ei glustnodi / 2019-20 Underspend - not earmarked	£1,221.20	(£1,221.20)	<b>0.00</b>
Incwm Ymlaen Llaw / Income Received in Advance	£100.00	(£100.00)	<b>0.00</b>
<b>Cyfanswm Cronfeydd y Cyngor / Total Council Funds</b>	<b>£11,006.20</b>	<b>£493.80</b>	<b>£11,500.00</b>

## Sefyllfa Ariannol y Cyngor at 30 Mehefin 2020 (Adolygiad Chwarter 1af) / Financial Position as at 30 June 2020 (1<sup>st</sup> Quarter Review)

Praesept 2020-21 Precept	(£64,000.00)
Defnydd Net o Balansau 2020-21 / Net Use of Balances	£493.80
<b>Yn gadael Cyllideb 2020-21 / Leaving a Budget of</b>	<b>(£63,506.00)</b>
Gwariant y disgwylir 2020/21 Expected Expenditure	£68,754.04
Incwm y Disgwylir 2020/21 Expected Income	(£5,440.00)
<b>Gwariant Net 2020/21 Net Expenditure</b>	<b>£63,314.04</b>
<b>Gor (Tan) wariant Chwarter 1af 2020-21 / 2020/21 1st Quarter Over (Under) Expenditure</b>	<b>(£191.96)</b>

## Cysoniad y Banc ar 30 Mehefin 2020 / Bank Reconciliation as at 30 June 2020

<b>Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2020 / Bank Reconciliation to 30 June 2020</b>	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin 2020 / Bank Balances as at 30 June 2020	(£30,928.71)
- Llai Credydwy'r a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£3,936.17
+ Dyledwyr / Debtors	(£1,509.00)
<b>Cyfanswm Arian Y Cyngor at 31 Mehefin 2020/ Total Cash as at 30 June 2020</b>	<b>(£28,501.54)</b>
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	<b>(£32,000.00)</b>
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£60,501.54)</b>
Gwariant ymrwymedig i 31 Mawrth 2021 / Committed Expenditure to 31 March 2021	£53,558.61
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2021 / Income due to 31 March 2021	(£4,749.03)
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£11,691.96)</b>
Llai Cronfeydd Penodol / Less Specific Funds	£11,500.00
<b>Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2021 / Total Over (Under) spend expected as at 31 March 2021</b>	<b>(£191.96)</b>

## Adroddiad y Rheolwr –

- 4.1 'Roedd balansau y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 yn **£11,006.20** ac oedd yn cynnwys
- **£1,221.20** o danwariant nad oedd wedi ei glustnodi
  - **£100** o incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw gan Grwp Alexandra ar gyfer lloches bws Y Fron
  - **£2,185.00** ar gyfer y gwefan newydd (gwaith wedi llithro)
- 4.2 Yn cyllideb 2020-21 mae £6,000.00 yn cael ei ychwanegu i'r balansau gyda £5,506.20 yn cael ei ddefnyddio, sydd yn gadael balansau o **£11,500.00** ar 30 Mehefin 2020 (gweler tabl 1)
- 4.3 Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod Mai 11, 2020 oedd defnyddio £1,221.20 o danwariant 2019-20 oedd heb ei glustnodi ynghyd a defnyddio £1,000.00 oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y **Eisteddfod Genedlaethol Boduan** i gefnogi ein trigolion bregus yn ystod y cyfnod **cyfyngiadau Covid 19**.
- 4.4 Hyd yma mae'r cyfanswm sydd wedi ei ddsbarthu yn **£1,600** y erbyn cyfanswm cyllideb o £2,500 **sydd yn gadael tanwariant o (£900)**. Yn ychwanegol mae cwestiwn yn codi os ydi pentref y Fron wedi gwario y swm o £100 sydd wedi ei dosbarthu iddynt.

<b>Grant Covid 19</b>	Taliadau 2019-20	Taliadau 2020-21	Cyfanswm/ Total	Dyraniad / Allocation	Gweddill / Remaining
	£	£	£	£	£
Fron	0.00	100.00	100.00	500.00	(400.00)
Carmel	0.00	500.00	500.00	500.00	0.00
Groeslon	100.00	300.00	400.00	500.00	(100.00)
Llandwrog	100.00	300.00	400.00	500.00	(100.00)
Dinas Dinlle	100.00	100.00	200.00	500.00	(300.00)
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>300.00</b>	<b>1,300.00</b>	<b>1,600.00</b>	<b>2,500.00</b>	<b>(900.00)</b>

- 4.5 **Gwefan Newydd** – 'Roedd swm o £2,185.00 wedi ei glustnodi yn cyllideb 2019-20 ar gyfer y wefan newydd. Bellach mae'r gwaith wedi ei gwblhau. Y taliadau terfynol yw -
- Cost adeiladu y wefan newydd - £1,807.04
  - Cost cofrestru y domain cyngorcymunedllandwrog.cymru am 3 mlynedd - £165.00
  - Cost cofrestru cyfeiriad ebost @cyngorcymunedllandwrog.cymru - £21.00
  - Cyfanswm - £1,993.04
  - **Yn gadael tanwariant o (£191.96)**

I ddenu cynulleidfa at y wefan rhaid ei ddiweddarau, ac ei ddatblygu yn gyson.

**Argymhellir trosglwyddo y tanwariant i'r gyllideb Datblygu y Gwefan ynghyd a £108.04 o Gwariant Heb Ei ymrwmo fyddai'n rhoi cyfanswm o £500.00 i ddatblygu y wefan yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.**

- 4.6 **Offer TGCh** – Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 23 Mehefin 2020 oedd i archebu offer TGCh gan gwmni **Cyfrifiaduron Whitten o Benygroes**. Cost yr offer (gan cynnwys y clawr, ffi un tro i sefydlu yr apps ynghyd a cost cytundeb blynyddol yw **£2,897.48**

Dull ariannu yr offer – argymhellir ariannu yr offer fel a ganlyn –

- Defnyddio Cyllideb Lwfansau Aelodau - £2,170.00 – yn gadael dim\*
- Cyllideb Cyfieuthu - £400 - yn gadael £700
- Cyllideb Llogi Ystafelloedd - £200 - yn gadael £250

- Cyllideb Offer Swyddfa a Postio - £127.48 - yn gadael £443.88
- **Cyfanswm £2,897.48**

\*Noder y gellir aelodau parhau i hawlio y lwfans o £150 er fod y Cyngor wedi defnyddio y gyllideb.

**Argymhellir trosglwyddo y symiau uchod o'r cyllidebau fel a nodir i ariannu yr offer.**

#### 4.7 **Ebost Aelodau** – Nawr fod y wefan newydd wedi ei lansho a fod y Cyngor wedi ymrwymo i

- brynu offer TG i pob aelod y cam nesaf yw –
- Sefydlu cyfeiriadau ebost y Cyngor i pob aelod – ee [alanpaterson@cyngorcymunedllandwrog.cymru](mailto:alanpaterson@cyngorcymunedllandwrog.cymru)
- Gwneud defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol "Facebook"

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Delwedd yn cynnig gwasaneth e-byst i'r Cyngor am ddim ond mai 15 "gigabyte" ydi capasiti y server.

Mae Cyfrifiaduron Whiitten yn cynnig sefydlu gwasaneth ebyst i'r Cyngor am £100 ond gyda capasiti o 50 "gigabyte".

Sylwadau Aelodau –

CB – yn cynnig prynu gwasaneth Cyfrifiaduron Whitton gan y byddai gwasaneth TGCh mewn un lle

**Argymhellir**

- Trosglwyddo swm o £100 o'r Gwariant Heb Ei Ymrwymo i ariannu'r gwaith.**
- Fod y Cyngor yn prynu gwasanaeth ebyst gan Cyfrifiaduron Whitton**

#### 4.8 **Mynwentydd** – Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 15 Mehefin 2020 oedd ymrwymo **£480 i beintio giat fynwent Llandwrog** a gofyn am prisiau i **ddymchwel cwt** yn fynwent Carmel. Mae yna ddarpariaeth o £1,230.00 yn y gyllideb. Rhagwelir na fydd y gyllideb yn ddigonol gan hefyd ystyried fod angen clirio prysgoed a drain o fynwent Llandwrog a Bryn'rodyn

- Cyllideb Cynnal Mynwentydd - £1,230
- Llai - Peintio y giat (£480)
- Llai - Dymchwel y Cwt (£1,000) amcan
- Llai - Clirio coed o'r mynwentydd (£400) amcan

**Yn gadael diffyg o £650**

**Argymhellir trosglwyddo £650 (neu y gwir diffyg wedi derbyn y prisiau) i'r gyllideb Cynnal Mynwentydd o'r pennawd Gwariant Heb Ei Ymrwymo.**

#### 4.9 **Gwariant Heb Ei Ymrwymo** – Mae yna swm o **£6,083.60** yn y gyllideb nad oes ymrwymiad iddo yn benodol –

- Cyflog y Rheolwr – **£942.60** – cyllideb yn cynnwys ymrwymiad i adolygu oriau gwaith y Rheolwr (adolygiad heb gychwyn)
- Adroddiad Blynyddol **£500** (effaith Covid)
- Hyfforddiant Aelodau **£570** (effaith Covid)
- Llochesi Bws **£1,140** (cynnwys £100 gan Grwp Alexandra ar gyfer Lloches Bws Y Fron)
- Caban Cilgwyn **£50**
- Cynnal Caeau Chwarae **£220**
- Gwaith Llwybrau yn Bryn'rodyn a Llandwrog **£2,000** (cais i Jones Bros)
- Ymdrin Cwanclwm **£640** (dim cwynion / galw)
- Amrywiol £21 (addasiad)

**Cyfanswm £6,083.60**

Llai Defnydd –

Cyfeiriadau ebost £100

Cynnal Mynwentydd £650

Datblygu y Gwefan £108.04

Diffribiliwr Dinas Dinlle ?  
Clwt Foty £500  
**Cyfanswm £1,358.04**

**Yn gadael £2,725.56** o gyllideb heb ei glustnodi

#### **Sylwadau Aelodau**

GOJ – angen cadw £2000 llwtbrau y mynwentydd gan nad yw Jones Brothers wedi ymateb I gais y Cyngor

*Argymhellir, o'r rhestr uchod, derbyn fod y pennawdau uchod yn tanwario oni bai am y gwaith llwybrau mynwentydd gan dderbyn y bydd angen, yn ystod y flwyddyn, yn erbyn y balans o £2.725.56 ystyried 1) adolygu oriau gwaith y Rheolwr a 2) gwaith ar lloches bws Y Fron.*

- 4.10 **Caban Ffôn BT Dinas Dinlle** – Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 17 Chwefror 2020 oedd derbyn cynnig BT i brynu'r caban am £1. Ymhellach ar 11 Mai 2020 penderfynwyd mai ar gyfer gosod peiriant diffribiliwr y gwnaed y pryniant. Rhaid i'r Pwyllgor hwn felly ystyried y mater ac argymhell opsiynau a chostiadau i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau cyn adrodd yn ol i'r Cyngor llawn.

#### **Sylwadau Aelodau a Rheolwr -**

**Rheolwr** – un cwmni wedi cysylltu yn cynnig diffibs am ddim ond fod yna rwymedigaethau cuddedig gyda cynnigion o'r math.. Yn gwneud y sylw y gellir cyfraniad ar gyfer y ddiffibs gan busnesau yn Dinas Dinlle, megis parciau carafannau?

**DCD** – pentrefi fel Groeslon a Llandwrog wedi codi arian ar gyfer peiriannau, felly pam trin Dinas Dinlle yn wahanol. Oes rhan o'r pentref yn fodlon gwneud ymdrech I gasglu arian

**CB** - twristiaeth sydd yn ymweld ar traeth fwyaf, yn gofyn oes posib gwneud ymdrech yn yr Haf i godi arian?

**EW** – arian ar gael i brynu y peiriannau ond ar ol 3 mlynedd nid oes arian ar gyfer bateris newydd a cynnal y peiriannau

**DCD** – diffib yn costio tua £1,400 am uned , bocs a gosod.

*Argymhellir nodi'r drafodaeth gan drafod eto y ffordd ymlaen o gyllido y diffribilwr yn Dinas Dinlle.*

- 4.11 **Clwt Foty, Carmel** – Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf 6/7/20 oedd gofyn am prisiau i wneud gwaith un tro o glirio rwbel a torri prysgoed a mieri.

*Argymhellir ariannu y gwaith o'r pennwad Gwariant Heb Ei Ymrwymo*

- 4.12 **Covid 19 – Yr Ail Don** – Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried oblygiadau yr ail don a y gyllideb ac yr adnoddau fydd ei angen I'n pobol bregus.

*Argymhellir nodi y peryglon a'r gofyn ychwnegol posibl ar y gyllideb, ac adolygu y gyllideb ar ol yr ail a trydydd chwarter adanabod unrhyw danwariant gan gofio fod gan y Cyngor cronfa Arian Wrth Gefn o £5,000.*

- 4.13 **Ffioedd Claddu** – dau gladdedigaeth yn y dair mynwent yn unig yn y chwarter cyntaf gyda dau pellach ym mis Gorffennaf, er gwaethaf gofidion y pandemig.
- o Targed incwm - £4,590

- Incwm hyd yma - £688 (15% o'r gyllideb)
- Diffyg hyd yma- £3,902

Mae'r diffyg yn y chwarter cyntaf yn gyson gyda'r patrwm arferol, felly rhagwelir y bydd yr incwm terfynol yn cyrraedd, neu yn agos, i'r targed erbyn 31 Mawrth 2021.

#### **Argymhelliad i'r Cyngor**

- Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau, y sefyllfa ariannol a cysoniad y banc at 30 mehefin 2020 fela nodwyd yn y tablau uchod.***
- Fod y Cyngor yn derbyn yr argymhellion uchod fel a nodir yn para 4.5, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11 a 4.12***

#### **Recommendation to the Council**

- That the Council accepts the accuracy of the balances, the financial position and the bank reconciliation as at 30 June 2020 as noted in the tables above.***
- That the Council accepts the above recommendations as noted in paras 4.5, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11 and 4.12***

## **5 Asesiad Risg / Risk Assessment**

Gohirwyd yr eitem – Rheolwr i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid i drafod y mater hwn yn unig.

Item deferred - Manager to arrange a meeting of Finance Committee to discuss this matter only.

## **6 Gwerth Asedau y Cyngor / Value of Council Assets**

Trafodwyd gwerth asedau y Cyngor fel sydd yn ymddangos ar y Datganiad Ariannol Flynyddol at 31 Mawrth 2020. Gwerth yr asedau sydd yn cael ei ddatgan yw **£32,117**

Adroddwyd gan y **Rheolwr** –

Ffigwr ar sail hanesyddol. Gwerth nominal o £1 sydd ar y dair mynwent a'r ddau caee pel droed. Nodwyd fod y ffigyrau yn wahanol i'r hynny sydd ar y polisi yswiriant gan fod gwerth ar asedau arcost hanesyddol ac y polisi yswiriant ar sail "newydd am hen" (new for old)

**AWJ** – Tir Caety wedi ei brynu gan Stad Glynllifon nol yn 1996 ac felly gwerth yn y buddsoadiad hwnnw? Gwerth hefyd ar y tiroedd caeau chwarae fel tir amaethyddol, neu tir pori.

**HJO** – yn derbyn fod Tir Caety wedi ei brynu ond unwaith cafwyd ganiatad i gallu ar y tir nid oes unrhyw werth ariannol iddo. Tebyg gyda'r caeau chwarae – cyfamod arno i'w ddefnyddio fel cae chwarae yn unig ac felly dim gwerth ariannol iddo. Gwerth yswiriant a gwerth nominal yn ddau fater gwahanol.

**AWJ** – yn atgoffa aelodau fod Tir Caety wedi ei brynu gan Stad Niwbwrch am 3 gwaith gwerth tir amaethyddol nol yn 1996. Yn awgrymu gofyn i Adran Stadau Cyngor Gwynedd.

**DCD** – yn ddefnyddiol cael y sgwrs i wrpas yswiriant yn mis Medi. Gwneud y sylw fod bethyciadau y Cyngor gan y PWLB o £11,000 y flwyddyn sydd yn ymwennud a gwaith cyfalaf yn y mynwentydd, boed yn brynant tir, datblygu tir Caety a gwaith ar y llwybrau yn y dair mynwent. Yn ddryslyd o bosib nodi gwerth nominal o £1.00 yr un am werth y mynwentydd yn sgil buddsoddiad sylweddo a'r ddyled sydd gan y Cyngor.

#### **Argymhelliad i'r Cyngor -**

- i) *Fod y Cyngor yn gofyn i Adran Stadau Cyngor Gwynedd am arweiniad o sut mae dangos gwerth mynwentydd yn y fantolen ariannol yn sgil buddsoddiad hanesyddol sydd wedi ei wneud.*
- ii) *Fod y Cyngor yn ystyried yr yamteb gan Cyngor Gwynedd wrth adolygu y polisi yswiraint yn Medi 2020*

**Recommendation to the Council-**

- i) *That the Council asks Gwynedd Council's Estates Department for a guidance of how to show the value of cemeteries in the financial balance sheet as a result of a historic investment made.*
- ii) *That the Council considers the response from Gwynedd Council when reviewing the insurance policy in September 2020*

## **7 Trosglwyddo Balans Cronfa Diffribiliwr Groeslon i'r Cyngor – Groeslon Difribilator – Transfer of Fund Balances to the Council**

Atgoffwyd yr aelodau fod y mater hwn wedi ei ohrio ers Tachwedd 2019.

Cafwyd ddiweddariad gan AWJ.

- Cronfa Diffibs Y Groeslon yn eistedd yn banc Pwyllgor Neuadd Y Groeslon
- Arian a gasglwyd gan pobol pentref y Groeslon ydyw
- Y cais, yn syml, gan Pwyllgor y Neuadd yw i drosglwyddo y gronfa i'r Cyngor Cymuned
- Y Cyngor Cymuned i gadw yr arian ar un ochor ar gyfer cynnal a chadw y peiriannau
- Tra fod yr arian yn parhau, fod y Cyngor Cymuned yn gweinyddu unrhyw wariant.

Sylwadau Aelodau

**CB** – os ydi'r peiriant ar y Neuadd pam fod angen trosglwyddo y gronfa i'r Cyngor?

**AWJ** – ateb yn syml - pan fu i'r fenter gychwyn un peiriant ar adeilad y Neuadd oedd y bwriad. Erbyn hyn mae yna beiriant yn Dolydd ac ar adelad yr Hen Church Room (Gas IT). Mae'r gronfa erbyn hyn ar gyfer casgliad o unedau sydd ddim yn gyfrifoldeb Pwyllgor y Neuadd. Ddim yn neud synnwyr fod Pwyllgor y Neuadd yn ei weinyddu. O'r farn fod y gronfa i fod dan "umbarel" y gymuned, nid y Neuadd.

**DCD** – eglurodd efallai fod angen gwario swm sylweddol o'r gronfa i ail leoli diffib o adeilad y Church Room (Gaslt) i'r ysgol gan fod problem wedi codi yn ddiweddar.

**CB** – ydi'r arian ar gyfer peiriannau Y Groeslon, ynteu gellir ystyried ei wario ar peiriannau yn Llandwrog a Dinas Dinlle?

**AWJ** – y cynnig ar gyfer peiriannau Y Groeslon yn unig.

**HJO** – beth fydd yn digwydd unwaith fydd y gronfa wedi ei wagio?

**AWJ** – cwestiwn dilys. Angen ei ystyried yn aeddfed. Pwyllgor y Neuadd fydd yn gyfrifol am y peiriant sydd ar y Neuadd, ond ddim am y ddau arall. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth gyrraedd ei benderfyniad.

**DCD** - £1,700 ydi'r balans gyda cost o £500, efallai, i brynu a gosod bocs yn yr ysgol.

**Argymhelliad i'r Cyngor - Fod y Cyngor yn gohirio y mater hyd nes y bydd y sefyllfa gyda peiriant y Church Room (Gas It) yn eglur.**

**Recommendation to the Council- to defer a decision until the situation with the machine in the Church Room is clear.**

Diolchodd y Cadeirydd i Ann ac i'r Rheolwr am eu gwaith.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:05 yr hwyr / The meeting came to a close at 9:05pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Dyddiad -**